Gwybodaeth Feddygol

CJD anarferol a rhoi gwaed

Diweddariad
Awst 2004

NATIONAL BLOOD SERVICE

CJD anarferol a Rhoi Gwaed

Estyniad i'r rheol newydd ar gyfer rhoddwyr gwaed

Ar 5 Ebrill 2004, cyflwynwyd rheol newydd fel mesur rhagofalol gennym ar gyfer rhoddwyr gwaed cyflawn. Yn anffodus, nid oeddem yn gallu derbyn rhoddion gwaed gan bobl a oedd wedi derbyn gwaed yn ystod unrhyw driniaeth neu weithdrefn feddygol yn y DU ers 1af Ionawr 1980.

Ers 2 Awst 2004, rydym wedi penderfynu ymestyn y rheol hon i gynnwys unrhyw un nad yw'n siwr a ydyw wedi cael trallwysiad gwaed ers 1980. Mae'r rheol hon yn awr hefyd yn cynnwys ein holl roddwyr platennau a phlasma (apheresis) sydd wedi derbyn gwaed, neu sy'n meddwl eu bod wedi derbyn gwaed, ers Ionawr 1980.

Cyflwynwyd y rheol newydd hon fel mesur rhagofalol yn unig. Nod y rheol yw lleihau'r risg bosibl y caiff CJD anarferol (vCJD) ei drosglwyddo o roddwr i glaf.

Ond, fel ein rheolau eraill ynghylch pwy all roi neu beidio – gall pethau newid. Wrth i wybodaeth wyddonol newydd ddod i'r fei, byddwn yn adolygu'r sefyllfa hon. Gallai hyn olygu y byddwn naill ai'n parhau â'r rheol hon neu'n gofyn i bobl ddod yn ôl i roi. Dydyn ni ddim yn gwybod eto.

Ynghylch vCJD

Mae afiechyd Creutzfeldt-Jakob (CJD) yn un o grwp o afiechydon sy'n effeithio ar y system nerfol ganolog. Mae achosion CJD wedi digwydd yn naturiol ar sawl ffurf dros nifer o flynyddoedd. Yn ffodus, prin iawn yw'r achosion o CJD ar bob un ffurf.

Credir bod y CJD anarferol, sydd wedi dod i'r fei yn ddiweddar, yn deillio o fwyta cig eidion halogedig, sy'n gysylltiedig â BSE (neu clwy'r gwartheg gwallgof) mewn gyrroedd gwartheg yn y DU ar ôl 1980.

Nid yw CJD fel annwyd, allwch chi mo'i ddal gan bobl yn yr un ystafell â chi. Does dim tystiolaeth y caiff yr haint ei drosglwyddo trwy ryw neu gan y fam i'w baban wrth ei eni. Ond mae modd ei drosglwyddo o berson i berson yn ystod gweithdrefnau meddygol. Ychydig bach o achosion sydd wedi'u cadarnhau hyd yn hyn, yn deillio o drosglwyddo trwy offer, impiadau meinwe a defnyddio hormonau tyfu sy'n deillio o fodau dynol. Gan mai gweithdrefn feddygol yw derbyn gwaed, mae'n dilyn y gall vCJD heintio'r claf trwy'r gwaed. Nid oes prawf pendant, ond mae'n dal i fod yn bosibilrwydd.

Beth ydym yn ei wneud ynghylch vCJD

Ers 1997 mae'r Gwasanaethau Gwaed yn y DU wedi mabwysiadu nifer o fesurau rhagofalol, rhag ofn:

1. Galw'n ôl unrhyw gydrannau gwaed gan roddwyr sydd yn datblygu vCJD yn ddiweddarach
2. Mewnforio plasma o wledydd sydd ag achosion prin neu ddim achosion o gwbl o BSE er mwyn cynhyrchu cynnyrch gwaed.
3. Tynnu celloedd gwyn o'r gwaed cyn iddo gael ei drallwyso (gall y celloedd gwyn gario'r haint vCJD)
4. Mewnforio plasma o wledydd sydd ag achosion prin neu ddim achosion o gwbl o BSE ar gyfer plant a aned ar ôl Ionawr 1996.

Ni ddaeth tystiolaeth i'r fei y gallai rhoddwr gwaed fod wedi trosglwyddo vCJD i glaf trwy drallwysiad gwaed tan mis Rhagfyr 2003. Nid yw gwyddonwyr yn gant y cant sicr mai dyma beth ddigwyddodd. Mae'n dal i fod yn bosib bod y rhoddwr a'r claf wedi dal vCJD ar wahân trwy fwyta cig eidion halogedig.

Er hynny, o ganlyniad i'r achos hwn, rydym yn awr yn gofyn i roddwyr sydd wedi derbyn gwaed a'r rhai sy'n meddwl eu bod wedi derbyn gwaed yn y DU ers 1af Ionawr 1980 (y dyddiad y daeth BSE yn rhan o'r gadwyn fwyd) i beidio â rhoi gwaed. Trwy wneud hyn, byddwn yn eithrio grwp o bobl sydd, o bosib, ag ychydig mwy o risg o fod wedi dal vCJD na'r bobl sydd heb dderbyn gwaed.

Rwy'n gwybod am rywun sydd wedi derbyn gwaed. Beth mae hyn yn ei olygu i'w hiechyd?

Mae pobl sydd wedi derbyn gwaed ers 1980 yn perthyn i grwp mawr sydd, gyda'i gilydd, â mwy o risg o fod mewn cysylltiad â vCJD na'r boblogaeth gyffredinol.

Gellir gweld pa mor fach yw'r risg hon o'r ffaith bod ysbytai yn y DU, yn y deng mlynedd diwethaf, wedi defnyddio 23 miliwn uned o waed, ac eto'r achos ym mis Rhagfyr 2003 oedd yr un cyntaf erioed i'w gofnodi. A dydyn ni dal ddim yn 100% siwr mai cael ei drosglwyddo wnaeth yr haint yn yr achos hwnnw. Ac eto, er mor fach yw'r risg, trwy eithrio'r rhoddwyr hyn, gallwn sicrhau bod y gwaed y mae cleifion yn ei dderbyn ychydig bach yn fwy diogel. Rydym yn bod yn dra gofalus.

Ers 1997, mae astudiaeth feddygol wedi nodi dyrnaid o gleifion sydd wedi derbyn gwaed gan roddwyr, a oedd yn iach pan roedden nhw'n rhoi gwaed ond sydd wedi datblygu vCJD yn ddiweddarach. Mae pob un o'r cleifion hyn wedi cael gwybod a, hyd yn hyn, dim ond un ohonynt sydd, o bosib, wedi cael eu heintio gan vCJD o'r gwaed a dderbyniasant.

Cadw gwaed y DU yn ddiogel

Mae gan y DU enw eithriadol o dda o ran cadw gwaed diogel. Fel unrhyw weithdrefn feddygol arall, mae rhywfaint o risg ynghlwm wrth roi gwaed ond er mwyn sicrhau bod y gwaed mor ddiogel ag sy'n bosib, mae gennym brofion a rheolyddion caeth dros ben. Rydym yn adolygu ein dulliau diogelwch yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn briodol i unrhyw broblem a all godi, megis vCJD. Ac wrth gwrs, mae unrhyw risg sy'n gysylltiedig â derbyn gwaed yn mesur yn erbyn y risg o beidio â derbyn gwaed pan fydd ei angen.

Yn ystod yr holl flynyddoedd yr ydym wedi bod yn rhoi gwaed i gleifion, rydym bob amser wedi ceisio sicrhau bod y gwaed mor ddiogel ag y bo modd tra, ar yr un pryd, yn bodloni'r galw. Yn syml iawn, mae gwaed, dros y blynyddoedd, wedi achub miliynau o fywydau a bydd yn parhau i wneud hynny.

All rhoddwyr gwaed ddal vCJD wrth roi gwaed?

Na. Defnyddir nodwyddau ac offer di-haint na ellir eu defnyddir eto ar gyfer rhoi gwaed. Nid oes unrhyw risg o ddal vCJD wrth roi gwaed.

Sut y bydd hyn yn effeithio ar y cyflenwad gwaed?

Rydym yn amcangyfrif y bydd rhaid i filoedd o roddwyr gwaed roi'r gorau i roi gwaed am y tro. Dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, bydd hyn yn golygu nifer fawr o roddion y bydd wir eu hangen. Ac eto mae nifer y bywydau sydd angen eu hachub a nifer y cleifion sydd angen triniaethau hanfodol yn dal i fod yr un fath ag o'r blaen, a dim ond trwy roddion gwaed gennych chi y bydd modd gwneud hyn.

Mae rhoi gwaed yr un mor bwysig a diogel ag erioed. Os byddwch yn dal i allu rhoi gwaed, gwnewch ymdrech arbennig i wneud rhywbeth rhyfeddol.

Os hoffech chi neu unrhyw un a wyddoch dderbyn mwy o wybodaeth am hyn, ffoniwch ein Llinell Gymorth i Roddwyr ar 0845 7 711 711. Mae ein llinell gymorth i roddwyr ar agor ar gyfer ymholiadau cyffredinol 24 awr y dydd, bob diwrnod o'r flwyddyn. Os nad yw eich ymholiad yn un brys, byddwn yn falch pe baech yn ein ffonio rhwng 9.00am a 5.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Os byddwch chi'n teimlo'n wael yn y pythefnos ar ôl rhoi gwaed (heblaw am annwyd), ffoniwch ein llinell gymorth cyn gynted â phosibl.

INF/MED/CM/029/02 LC228P 08/04

Gwnewch rywbeth rhyfeddol heddiw

Achubwch fywyd **Rhowch waed**